Prosiect Coedydd Trafalgar

Y LLYNGESYDD NELSON

CHWEDL NEU'R GWIR?

Pennaeth llynges Prydain ym mrwydr Trafalgar oedd y Llyngesydd Arglwydd Nelson. Credai llawer o bobl ei fod yn arwr cenedlaethol. Dros y blynyddoedd mae pobl wedi mynegi gwahanol farn am Nelson a'i bwysigrwydd yn hanes Prydain. Wrth wneud ymchwil i'w fywyd ar y Rhyngrwyd gallwch weld llawer i wahanol ddisgrifiad ohono. Dyma rai ohonynt.

> *"Ar fwrdd y fanerlong HMS Victory, rhoddon nhw'r neges i bennaeth y Saeson. Dyn main, ag un fraich, un llygad dall, a'i ddillad yn flêr, cot hir wedi treulio â staeniau halen y môr arni, a'i lês aur wedi troi'n garpiau garw, du."*
>
> www.voodoo.cz/victory/trafalgar

> *"Heddiw, bron ddwy ganrif ar ôl iddo farw ym mrwydr Trafalgar, mae'r cof anfarwol am Nelson yn parhau. Ychydig o gymeriadau hanesyddol eraill sydd wedi aros mor fyw trwy gymaint o newidiadau yn ein byd."*
>
> www.nmm.ac.uk/server/show/conWebDoc.13512

> *"Daeth yn batrwm o ddyletswydd ac ymroddiad i'w wlad, dyn dewr a hael yn aberthu ei fywyd er lles ei genedl."*
>
> www.nmm.ac.uk/server/show/conWebDoc.13512

Pam ydych chi'n meddwl bod y disgrifiadau hyn yn wahanol?

Pe baech chi eisiau dysgu am fywyd Nelson, pa fath o wybodaeth a thystiolaeth fyddai eu hangen arnoch chi?

Her Hanes/TGC

- Ewch i o leiaf tair gwahanol wefan i ddysgu am y Llyngesydd Nelson.
- Defnyddiwch raglen brosesu geiriau neu raglen gyhoeddi i greu taflen ffeithiau i'w harddangos. Defnyddiwch gymaint o wahanol fathau o dystiolaeth ag y gallwch.
- Chwiliwch am fanylion am ei fywyd, ei farwolaeth, ei eiriau olaf enwog, portread ohono, a hanes byr o Frwydr Trafalgar.
- Defnyddiwch amrywiaeth o destun, clipart a lluniau i greu eich taflen ffeithiau.

Nodiadau athrawon

Oedran

Blynyddoedd 5/6

Adnoddau pellach

Nodiadau athrawon
Geirfa
Rhestr llongwyr
www.trafalgar-schools.org.uk

Cysylltiadau cwricwlwm

Hanes, TGC, Llythrennedd

Nod masnach cofrestredig yw logo Coeden i Bawb. Elusen gofrestredig Rhif 294344

Prosiect Coedydd Trafalgar

Y LLYNGESYDD NELSON

CHWEDL NEU'R GWIR?

NODIADAU ATHRAWON

Canlyniadau'r dysgu

- Adnabod Nelson o wahanol ffynonellau tystiolaeth a chodi gwybodaeth o'r rhain
- Ymchwilio i wahanol agweddau ar ei fywyd gan ddefnyddio ffynonellau eilradd
- Codi gwybodaeth o ddeunydd cyfeirio, yn cynnwys y Rhyngrwyd
- Dechrau cloriannu effaith yr unigolyn hwn ar hanes ei amserau
- Trafod gwerth gwahanol ffynonellau o dystiolaeth

Amlinelliad o'r dasg

- Defnyddio'r gwahanol ddisgrifiadau o Nelson a roddir ar y daflen fel man cychwyn trafodaeth am wahanol ddehongliadau o dystiolaeth hanesyddol
- Gwneud rhestr o'r wybodaeth berthnasol sydd ei hangen i ddysgu am gyfraniad Nelson i hanes Gwledydd Prydain
- Ymchwilio i'r rhain gan ddefnyddio'r Rhyngrwyd
- Cyflwyno'r canfyddiadau ar ffurf taflen ffeithiau gan ddefnyddio pecyn prosesu geiriau neu gyhoeddi

Gwahaniaethu

Disgyblion llai galluog

- Rhai disgyblion yn defnyddio dwy wefan yn unig
- Gellir paratoi'r fframwaith gwag ar gyfer y daflen ffeithiau ymlaen llaw
- Gellir defnyddio'r eirfa a ddarparwyd i esbonio rhai o'r geiriau a ddefnyddir

Gweithgareddau ymestynnol

- Defnyddio'r bedwaredd ffynhonnell o dystiolaeth am Nelson (ar y dudalen nesaf)
- Gellir sganio a chopïo lluniau a mapiau ychwanegol o lyfrau a chryno-ddisgiau i'r daflen ffeithiau
- Defnyddio geiriaduron i ganfod ystyr rhai o'r termau a ddefnyddir mewn disgrifiadau
- Darllen fersiynau hwy o'r adroddiadau hyn trwy'r Rhyngrwyd

Yn y gweithgarwch hwn bydd y disgyblion yn cyfuno astudiaeth o berson enwog yn hanes Gwledydd Prydain gyda'r defnydd o TGCh. Ceir cyfle ar gyfer ymchwilio hanesyddol; dehongli; trefnu a chyfathrebu, ac astudio hanes Gwledydd Prydain.

Adnoddau angenrheidiol

Taflen disgyblion
Geirfa (y dudalen nesaf)
Rhestr o wefannau addas
Cyfrifiadur
Cyswllt â'r Rhyngrwyd
Pecyn prosesu geiriau/cyhoeddi
Argraffydd

Nodiadau

Defnyddier y rhestr gyflawn o wefannau defnyddiol yn (www.trafalgar-schools.org.uk) i weld ffynonellau eraill.
Dylid trafod cwestiwn hawlfraint gyda'r disgyblion yn ystod y gweithgaredd hwn.
Ceir geirfa sy'n rhoi ystyr rhai o'r geiriau a'r termau a ddefnyddir yn y disgrifiadau hyn ar y dudalen nesaf.

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

Hanes, TGCh, Llythrennedd

Y LLYNGESYDD NELSON

CHWEDL NEU'R GWIR?

NODIADAU ATHRAWON

Geirfa

Aberthu – rhoi neu ildio rhywbeth er mwyn helpu eraill

Anfarwol – ddim yn marw

Banerlong – y long sy'n hedfan baner pennaeth y llynges

Carpiau – brethyn neu ddillad wedi'u torri neu wedi treulio

Cyfoedion – pobl sy'n byw yr un amser â rhywun

Dyletswydd – yr hyn y mae'n rhaid i chi wneud

Llynges – llawer o longau un wlad

Llyngesydd – pennaeth llynges

Ymroddiad – gwaith caled a hir

> *"Roedd yn falch fel paun. Cafodd lawer o fedalau am ei gampau rhyfel ac roedd wrth ei fodd yn eu gwisgo ar ei ddillad crand. Dywedodd un o'i gyfoedion unwaith 'mae'n fwy tebyg i Dywysog yr Opera na llyngesydd Prydeinig!'"*
>
> www.nelson-society.org.uk

Ychwanegwch unrhyw eiriau eraill y mae'n rhaid i chi chwilio am eu hystyr:

Woodland Trust tree for all coed i bawb

www.treeforall.org.uk/trafalgar

Mae Coedydd Trafalgar yn rhan o ymgyrch Coeden i Bawb Coed Cadw

Nod masnach cofrestredig yw logo Coeden i Bawb. Elusen gofrestredig Rhif 294344

BYWYD AR FWRDD LLONG

BWYD, FFEITHIAU A FFIGURAU

Y ddogn wythnosol i longwyr HMS *Victory*

Bwyd	*Dogn wythnosol mewn kg*
Bara	3.2
Cig eidion	1.8
Cig porc	0.9
Menyn	0.17
Caws	0.34

Byddai cogydd y llong a'i weision yn codi erbyn 5 y bore i gynnau tanau'r gegin a pharatoi at goginio bwyd y diwrnod. Am 8 o'r gloch byddent yn galw'r morwyr at bryd bwyd cyntaf y dydd. Fel arfer byddai hwn yn uwd garw wedi'i felysu â thriogl, neu goco. Uchafbwyntiau'r dydd oedd y prydau bwyd. Byddai'r rhan fwyaf o'r morwyr yn bwyta ar y dec gynnau isaf lle câi byrddau eu rhoi rhwng y gynnau.

Pwysau'r nwyddau a'r bwydydd y byddai HMS *Victory* yn eu cludo

Eitem	*Pwysau mewn tunelli*
Powgr gwn	35
Tanbelenni	120
Glo	50
Cig eidion a phorc	30
Bara a bisgedi	45
Menyn	2
Blawd	10
Pys	15
Cwrw	50
Dŵr	300
Tywod, pyg, tar, a.a.	20
Balast	210

Her TGC/Mathemateg

- Defnyddiwch y wybodaeth uchod i greu taenlenni, graffiau a siartiau cylch i ddangos eich canlyniadau.
- Meddyliwch yn ofalus am y math o graff a ddefnyddiwch. Pa fath fydd yn dangos y wybodaeth yn glir?
- Cofiwch ychwanegu teitl ac enwi pob echel.
- Meddyliwch am rai cwestiynau i'w gofyn gan ddefnyddio'r canlyniadau a ddangosir ar eich graff neu eich siart cylch.
- 850 o ddynion oedd criw HMS *Victory*. Allwch chi gyfrifo faint fyddai pwysau dognau wythnosol y morwyr i gyd?

Nodiadau athrawon

Oedran

Blwyddyn 4

Adnoddau pellach

Nodiadau athrawon
Rhestr llongwyr
Geirfa
www.trafalgar-schools.org.uk

Cysylltiadau cwricwlwm

Hanes, Mathemateg, TGC, Llythrennedd, Gwyddoniaeth

Nod masnach cofrestredig yw logo Coeden i Bawb. Elusen gofrestredig Rhif 294344

PROSIECT COEDYDD TRAFALGAR

BYWYD AR FWRDD LLONG

BWYD, FFEITHIAU A FFIGURAU

NODIADAU ATHRAWON

Canlyniadau'r dysgu

- Deall y defnyddir gwahanol graffiau at wahanol ddibenion
- Mewnbynnu data i becyn trin data a'i ddefnyddio i greu siartiau bar, siartiau cylch a graffiau llinell
- Creu siartiau cylch trwy TGCh a deall mai po fwyaf y segment, mwyaf yw'r gyfran
- Defnyddio siartiau bar, siartiau cylch a graffiau llinell yn briodol
- Deall mwy am y defnydd o wahanol adnoddau a dognau bwyd (gweler y daflen ffeithiau yn y nodiadau athrawon hyn)

Amlinelliad o'r dasg

- Mewnbynnu'r data a roddir i becyn trin data megis Excel a chynhyrchu taenlen
- Defnyddio'r daenlen i gynhyrchu siart cylch neu siart bar
- Gofyn cwestiynau am y canlyniadau a ddangosir

Gwahaniaethu

Disgyblion llai galluog

- Defnyddio un set o ddata yn unig i gynhyrchu graff neu siart
- Yr athro'n paratoi'r daenlen ymlaen llaw a'r disgyblion yn dilyn canllawiau i fformateiddio'r graffiau

Gweithgareddau ymestynnol

- Chwilio am ddata pellach i greu graffiau a siartiau newydd
- Trafod sut y gellir gwella'r siartiau a'r graffiau, e.e. teitlau eglur, defnyddio lliw, labelu'r data, a.a.

Yn y gweithgaredd hwn bydd y disgyblion yn dysgu defnyddio pecyn trin data i greu siartiau bar a siartiau cylch.

Daw'r data o
'Countdown To Victory' by Peter Goodwin ISBN 1-903792-00-3

Adnoddau angenrheidiol

Taflen y disgyblion
Cyfrifiadur
Pecyn trin data, e.e. Excel
Geirfa a ffeithiau difyr
(y dudalen nesaf)

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

Mathemateg, TGCh, Llythrennedd, Hanes



Woodland Trust treeforall coed i bawb

www.treeforall.org.uk/trafalgar
Mae Coedydd Trafalgar yn rhan o ymgyrch Coeden i Bawb Coed Cadw
Nod masnach cofrestredig yw logo Coeden i Bawb. Elusen gofrestredig Rhif 294344

Adnoddau a Dognau Bwyd – geirfa a ffeithiau difyr

Bisgedi (yn cael eu galw'n "fara" hefyd) Ni pharhâi bara arferol yn ffres ar fwrdd llong, felly byddent yn pobi bisgedi llong caled. Weithiau byddai'r rhain yn llawn chwilod a chynrhon a châi'r morwyr gyngor i'w bwyta â'u llygaid ynghau!

Cig eidion/porc Byddent yn halltu'r cig er mwyn ei gadw. Deuai'r swyddogion yn aml â'u bwyd eu hunain. Doed ag anifeiliaid byw i'r llong pan oedd yn bosib.

Menyn/caws Gweinid y rhain i swper gyda bisgedi llong ond byddent yn pydru ac yn magu llwydni'n gyflym.

Blawd Er mwyn gwneud bisgedi'r llong. Roedd llwch blawd yn gallu ffrwydro, felly fe'i cedwid mewn storfa arbennig yn bell o ganhwyllau neu fflamau noeth eraill.

Pys sych Rhoddid pys i'r morwyr os nad oedd llysiau ffres ar gael.

Cwrw (neu win) Rhoddid hwn i'r morwyr oherwydd ni pharhâi dŵr yfed yn ffres ond am amser byr.

Powdr gwn Defnyddid hwn i saethu'r siot o fagnelau'r llong. Fe'i cedwid mewn casgenni o fewn storfa arbennig o'r enw "magasîn." Cadwai hwn y powdr yn sych ac yn bell o wreichion a allai achosi iddo ffrwydro.

Siot Saethid hwn o fagnelau'r llong. Roedd y gwahanol fathau'n cynnwys pelenni haearn, siot bar a siot cadwyn a droellai wrth hedfan ac a fwriedid i dynnu hwylbrenni a hwyliau i lawr, a siot grawnwin – clwstwr o beli haearn bach a allai ladd neu glwyfo morwyr y gelyn.

Glo I'w losgi yn y stôf yn y gali (cegin y llong).

Tywod Fe'i defnyddid mewn bwcedi tân (un o'r peryglon mwyaf ar fwrdd llong oedd tân). Cadwai'r dec rhag mynd yn llithrig hefyd pan lifai gwaed drosto.

Pyg Sylwedd du, gludiog a ddôi o dar. Fe'i defnyddid i wneud y llong yn ddiddos ac mewn rhai achosion i selio bonion coesau a breichiau a dorrid i ffwrdd!

Tar Defnyddiol i'w roi ar raffau'r mastiau i gadw dŵr allan ohonynt.

Balast Bariau haearn a graean a roddid ar waelod howld y llong i'w gwneud yn fwy sefydlog a chywiro unrhyw ogwydd yn y llong.

Dŵr Âi dŵr yfed yn wyrdd ac yn ddi-flas yn gyflym mewn storfa. Ceisiai'r capteiniaid achub pob cyfle i aros i godi dŵr ffres. Distyllid rhywfaint o ddŵr ffres ar fwrdd y llong i'w ddefnyddio gan y llawfeddyg wrth iddo wneud moddion.

Nod masnach cofrestredig yw logo Coeden i Bawb. Elusen gofrestredig Rhif 294344

COEDYDD TRAFALGAR
COETIR I'R DYFODOL

Prosiect Coedydd Trafalgar

Coetir _____

(Dewiswch enw llong o lynges Trafalgar)



Defnyddiwyd mwy na 5,500 o goed derw i adeiladu HMS *Victory*. Roedd rhai o'r coed hyn yn 200 mlwydd oed pan gawson nhw eu cwympo. Mae hynny'n golygu eu bod nhw'n tyfu yn 1600! Heddiw mae Coed Cadw yn creu rhagor o goedlannau ar hyd a lled y DU, un ar gyfer pob llong a hwyliodd yn llynges Trafalgar.

Dyma fap o goedlan fach newydd a gaiff ei phlannu yng nghornel cae ysgol. A allwch chi helpu i'w gynllunio?

Sialens Mathemateg

- Faint o goed sydd yn y goedlan?
- Mae coed yn costio £2 yr un. Faint fydd cyfanswm cost y coed?
- Rydym yn gwybod fod cwningod yn broblem yma, felly, bydd rhaid amddiffyn y coed gyda llewys. Mae'r rhain yn costio £1 yr un. Faint fydd cost y llewys i gyd?
- Mae yna opsiwn arall i amddiffyn y coed, sef rhoi ffens o gwmpas ffin y goedlan fyddai'n cadw'r cwningod allan. Mae hwn yn costio £2 am bob metr. Beth fyddai cost llawn y ffens o gwmpas y goedlan? Awgrym: mae pob sgwâr ar y map yn fetr o hyd. Mae croeslin pob sgwâr yn 1.4m
- Pa opsiwn yw'r un rhataf, y llewys neu'r ffens? Bydd rhaid defnyddio'r ffigwr hwn i ateb cwestiwn 6.
- Fe fydd y fainc yn y goedlan yn costio £200, a bydd y clwydi wrth bob pen y llwybr yn costio £100 yr un. Beth yw cost cyfan creu'r goedlan newydd?

Nodiadau athrawon

Oedran

Blynyddoedd 5/6

Adnoddau pellach

Nodiadau athrawon
Rhestr llongwyr
www.trafalgar-schools.org.uk

Nodiadau cwricwlwm

Bydd y disgyblion yn defnyddio eu sgiliau mathemateg i gynllunio coetir newydd gan ystyried ffactorau fel pris y coed a'r ardal sydd i'w chynnwys.

Nod masnach cofrestredig yw logo Coeden i Bawb. Elusen gofrestredig Rhif 294344

COEDYDD TRAFALGAR

COETIR I'R DYFODOL

NODIADAU ATHRAWON

Yn y gweithgaredd hwn bydd y disgyblion yn dysgu am rai o'r penderfyniadau angenrheidiol pan fyddwn yn cynllunio ac yn plannu coetir newydd. Dylai eu cynorthwyo i ddeall proses creu coedydd Trafalgar.

Canlyniadau'r Dysgu

- Gwerthfawrogi'r broses gynllunio sy'n angenrheidiol er mwyn creu coetir newydd
- Deall rhai o'r materion sydd angen eu hystyried

Amlinelliad o'r dasg

- Dilyn y cyfarwyddiadau i gyfrifo cost agweddau amrywiol o'r coetir newydd

Atebion

1. Ceir 93 o goed, 57 i'r dde o'r llwybr, 36 ar yr ochr dde.

2. Yr arcbeb gyfan ar gyfer coed yw (93 x £2.0) £186

3. Cost y llewys gwifren fydd (93 x £1.0) £93

4. Bydd perimedr ffin y coetir yn cwmpasu 38 sgwâr llawn.

Mae hefyd yn cynnwys 10 sgwâr ar y groeslin (1.4 metr o hyd yr un) = 14m.

Y perimedr cyfan, felly yw (38 + 14) = 52m. Efallai bydd disgyblion galluog yn cymryd 2 fetr o'r ffigwr hwn i adael lle ar gyfer mynediad trwy'r llwybr troed. (Gallai rhai hefyd newid eu hateb ar ôl darllen am y clwydi yng nghwestiwn 6). A bwrw mai 50 metr yw'r perimedr cyfan, cost ffens y perimedr fydd (50 x £2.0) = £100.

5. Mae llewys i'r coed yn rhatach.

6. Cost cyfan y coetir:

Coed £186, llewys £93, mainc £200, dwy glwyd £100 x 2 = £200

Cyfanswm: £679

Gwahaniaethau

Disgyblion llai galluog

- Efallai bydd angen help ar ddisgyblion llai galluog i wneud cwestiwn 4. Os dymunwch, gallwch hepgor y cwestiwn hwn neu dorri'r cyfrifiad yn gamau symlach.

Gweithgareddau ymestynnol

- Gallai'r disgyblion gynllunio a chostio eu coetir eu hunain seiliedig ar yr egwyddorion uchod, o bosib gan ddefnyddio ardal o fewn eu hysgol eu hunain. Cynhwysir papur sgwarog, gwag ar y dudalen nesaf i helpu gyda hyn. Anogwch y disgyblion i ddefnyddio llinellau syth ar gyfer ffin y coetir i gadw'r cyfrifiadau am ffensio'r perimedr yn weddol syml.

Materion eraill y gellid eu trafod

Manteision ac anfanteision coed mawr a bach. (Gweler y tabl isod).

Pris coed sydd ar gael i'w prynu

Enw maint y goeden	Uchder	Pris
Trawsblaniad	Llai na 90cm	40c i £1.00
Chwip	90cm i 2.5m	£1.00 i £5.00
Safonol	2.5m i 5m	£5.00 i £10.00+
Stoc hŷn	Mwy na 5m	Gall fod yn fwy na £100 y goeden

Gellir defnyddio matiau mulch (50c i £1.0 y goeden) hefyd i gadw chwyn i lawr a chadw gwlybaniaeth o amgylch y goeden.

Lle rhwng y coed – mewn gwirionedd, mae 1m o le yn agos iawn. Mewn planhigfeydd coedwigaeth caniateir 2.1m rhwng coed fel arfer. Fodd bynnag, defnyddir bylchau lletach (ee 3 neu 4 metr) ar gyfer coed llydanddail mewn coetiroedd cyhoeddus.

Adnoddau angenrheidiol

Taflen y disgyblion
Cyfrifiannell

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

Mathemateg